

YN WYNEB HAUL

LLYGAD GOLEUNI



# ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD YR ORSEDD 2019



Cynhaliwyd Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 yn nhref Aberteifi fore Sadwrn 29 Mehefin, pryd y gorseddwyd y Prifardd Myrddin ap Dafydd yn Archdderwydd Cymru am y cyfnod 2019–21. Daeth torf o dros fil a hanner ynghyd i wylïo'r seremoni. Diolch i bawb a wnaeth yr achlysur yn un mor hynod lwyddiannus a chofiadwy, yn arbennig i'r rhai a gymerodd ran. A phob dymuniad da i'r Archdderwydd newydd wrth iddo afael yn awenau'r Orsedd.

**CYNHELIR CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL YR ORSEDD  
ym Mhabell y Cymdeithasau 1 am 10.00, ddydd Iau 8 Awst 2019**

## CYFARFODYDD BWRDD YR ORSEDD 2018–19

Cyfarfu Bwrdd yr Orsedd dair gwaith yn ystod y flwyddyn: 20 Hydref 2018 a 13 Ebrill 2019 yn Aberystwyth, a 6 Awst 2019 ar faes Eisteddfod Sir Conwy. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

- Enwau'r rhai a enwebwyd i'w hanrhydeddu yn Eisteddfod Sir Conwy 2019, a chyfrifoldeb Panel yr Urddau i sicrhau safon deilwng.
- Yr alwad ar yr Orsedd i fod yn gynhwysol, a chaniatáu i wrywod ymgeisio am swyddi Cyflwynydd y Corn Hirlas a Chyflwynydd y Flodeued a Chynnyrch y Meysydd.
- Priodoldeb cynnwys elfennau mwy poblogaidd yn ein seremonïau.
- Y nifer fawr o Orseddogion sy'n archebu gwisg ar gyfer seremonïau'r Eisteddfod bob blwyddyn, ond sydd ddim yn dod i'w casglu, gan beri gwaith diangen sylweddol i Arolygydd y Gwisgoedd a'i thîm.
- Penodi Eiryl Britton yn Ymgynghorydd Ddawns y Gogledd, yn dilyn ymddeoliad Prydwen Elfed-Owens o'r swydd y llynedd.

### Swyddogion yr Orsedd ar gyfer 2018–19

**Archdderwydd:** Y Prifardd Geraint Llifton

**Archdderwydd Etholedig:** Y Prifardd Myrddin ap Dafydd

**Dirprwy Archdderwydd:** Y Prifardd Christine

**Cyn-Archdderwyddon:** Y Priflenor Robyn Llŷn;

Y Prifeirdd: Jim Parc Nest, Meirion, John Gwilym

**Cofiadur:** Y Prifardd Christine

**Arwyddfardd:** Dyfrig ab Ifor

**Trysorydd:** Eric Wern Fawr

**Ysgrifennydd Aelodaeth:** Huw Tomos

**Swyddog Cyfraith:** Y Priflenor Robyn Llŷn

**Ceidwad y Cledd:** Robin o Fôn

**Trefnydd yr Arholiadau:** Gwyn o Arfon

**Trefnydd Cerddoriaeth:** Y Priflenor Cefin

**Arolygydd y Gwisgoedd:** Ela Cerrigellgwm

**Swyddog Cysylltiadau Celtaidd:** Hywel



Y Prifardd Myrddin ap Dafydd, Archdderwydd Cymru am y cyfnod 2019-22, gyda'r Dirprwy Archdderwydd, y Prifardd Geraint Llifton

### Bwrdd yr Orsedd ar gyfer 2018-19

Y swyddogion uchod ynghyd â'r aelodau a ganlyn:

Y Priflenor Annes, Y Prifardd Awen Gwyrfai, Dorothy Bwlch-y-Ffordd, Y Priflenor Eurig, Gwenda Pen Bont, Gwyn Treferyth, Y Prifardd Hywel Cynog, Madge, Y Prifardd Rhys Iorwerth a'r Prifardd Tafwysfardd.

### Ethol 4 aelod i wasanaethau ar Fwrdd yr Orsedd am y cyfnod 2019–22

Derbyniwyd chwe enwebiad, ac felly bu'n rhaid cynnal etholiad am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd. Yr ymgeiswyr oedd Elinor Gwynn, Gwenda Griffith, Gwyn Parry Williams, Prydwen Elfed-Owens, Rhian Parry a Wynford Ellis Owen. Cyhoeddir enwau'r pedwar llwyddiannus yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 8 Awst.

Bydd cyfnod Madge ar y Bwrdd yn goffen gyda'r Cyfarfod Blynyddol eleni, a charwn ddiolch yn ddiffuant iddi am ei gwanasaeth ffyddlon dros lawer o flynyddoedd.

*Y Cyn-Archdderwydd Christine  
Cofiadur*

## ADRODDIAD YR ARWYDDFARDD 2019

Wedi'r newid anorfod yn nhrefn ein gweithgareddau y llynedd yn 'Eisteddfod y Bae', rhyw elfen fwy cartrefol fu i swyddogaeth yr Arwyddfardd eleni. Ond er y newid yn holl leoliadau'n seremonïau y llynedd, diddorol oedd sylwi nad oedd fawr o newid yn y natur ddynol! Unwaith eto gwelwyd absenoldeb sylweddol ym mhresenoldeb ein Gorseddogion, er bod hynny dipyn yn llai nag yn Eisteddfod Môn – 281 o absenoldebau y llynedd o'u cymharu â 385 yn 2017. Tebyg y dylwn gymeryd rhyw gysur o'r gostyngiad yma, ond wrth gwrs, nid da lle gellir gwell. Y rhai sydd ganddynt glustiau i wrando ...

Mae Diwrnod Cymdeithasol yr Orsedd yn achlysur rheolaidd yn fy nghalendr erbyn hyn. Cawsom ddiwrnod hyfryd gyda'n gilydd fis Medi diwethaf pan ymwelsom â'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant (gyda diolch i Hefin Jones am lunio adroddiad – gweler tudalen 8). Mae trefniadau'n Diwrnod Cymdeithasol eleni wedi eu cwblhau ac edrychwn ymlaen i gwfwyr ym Mlaenau Ffestiniog ar 21 Medi. Cawn sgwrs gan hanesydd lleol ar holl chwarelir dref cyn cael cinio, ac yna awn ymlaen i ymweld â Llechwedd, i deithio ar drên tanddaearol i grombil y mynydd ar daith drwy hanes oesau'r cloddio.

Bu cryn dipyn o waith yn trefnu a pharatoi at Wyl y Cyhoeddi yn Aberteifi eleni, a chyda chydweithrediad parod staff y Steddfod, credaf inni fod yn llwyddiannus, er gorfod dechrau braidd yn blygeiniol oherwydd amseru'r Wyl Fawr yn y dref yr un diwrnod. Roedd hi'n hanesyddol ddiddorol cael gorymdeithio o amgylch hen gastell yr Arglwydd Rhys, lle y cynhaliwyd yr 'eisteddfod' gyntaf adeg y Nadolig 1176, cyn symud ymlaen i gynnal seremoni arbennig i Orseddu'r Archdderwydd Myrddin ap Dafydd a Chyhoeddi Eisteddfod 2020. Efallai'n wir bod rhyw hen niwl llechog o amgylch y dref, ond roedd gwres y gweithgaredd yn ei wthio'n ddisylw i'r cefndir.

Wrth baratoi'r ychydig eiriau yma, mae'r trefniadau at yr Eisteddfod yn Llanrwst yn prysuro ymlaen, a'r archebion yn llifo i mewn. Mae seremonïau'r dydd Gwener yn llawn eisoes, a'r ddwy ar y dydd Llun yn prysur fynd i'r un cyfeiriad. Gan y byddwn yn y dref arbennig honno, sydd â lle mor allweddol yn hanes y delyn deires, bwriadwn gael tair ohonynt ar y llwyfan yn ystod Seremoni'r Fedal Ryddiaith. Gobeithio'n fawr y bydd teilyngdod fel y bydd gennym ddau achlysur i'w dathlu y prynhawn hwnnw.

Fel y gwyddoch oll, arwain tîm mae'r Arwyddfardd, a heb gyfraniad y Disteiniad ynghyd â chefnogaeth staff y Swyddfa, fe fyddai ei dasg yn amhosib. Tristwch mawr i'r tîm felly oedd colli aelod ffyddlon, sef Meirion James. Meirion oedd y Distain â gofal dros Ffanner yr Orsedd, swyddogaeth yr oedd wedi ei chyflawni yn dawel a disylw ers blynnydoedd maith. Nid swydd hawdd yw hon, gan fod baner yn gallu gweithredu fel hwyll llong mewn unrhyw orymdaith. O reidrwydd, a bron yn ddieithriad, bydd y cludwyr yn newydd a dibrofiad bob tro, ond rywsut yn ei ffordd ddihafal ei hun byddai Meirion yn llwyddo i'w cael i ymlwybro'n osgeidig, ac ef ei hun yn symud yn rhwydd o'r naill i'r llall i gynig braich gref i gynnal rhaff rhag nerth y gwynt pan fyddai'r angen. Y mae'n gadael lle gwag iawn ar ei ôl, ond mae'n bleser cael nodi fod un a oedd yn ei adnabod yn dda wedi dod i ymgymryd â'r gwaith. Braff felly ydi cael croesawu Gwyn Elfyn yn aelod o'r criw, a hyfryd oedd ei weld yn camu i'r bwllch yn Aberteifi yng Ngŵyl y Cyhoeddi. Tybed beth fyddai barn Denzil am hyn?!



*Dyfrig ab Ifor  
Arwyddfardd*

### Cyhoeddi Eisteddfod Sir Conwy

Bu gorymdaith liwgar a seremoni arbennig iawn yng Nghonwy, pryd y cyhoeddwyd mai Myrddin ap Dafydd fyddai'r Archdderwydd nesaf, yn olynu Geraint Llifon. Roedd y trefniadau yn Ysgol Uwchradd Aberconwy yn ddigon hwylus. Oherwydd y tywydd chwilboeth penderfynwyd golchi'r gwisgoedd i gyd. Gan fy mod yn mynd i Gaerdydd y dydd Llun canlynol trefnais fynd â'r gwisgoedd i gyfarfod â Brian, Golchdy'r Ferry. Daeth ef â'r cyfan i Gaerdydd yr wythnos cyn yr Eisteddfod i ni gael eu smwddio a rhoi enwau arnynt. Roedd cael y Seremoni Cyhoeddi mor agos i'm cartref yn hwyluso pethau'n fawr.

### Edrych yn ôl ar Eisteddfod Caerdydd

Gweithiodd popeth yn dda ar y cyfan yn adeilad "Y Doctor." Braidd o'r neilltu oedd y lleoliad, ond roedd hyn yn fantais o ran hyd yr orymdaith, a chodi ymwybyddiaeth o'r Orsedd I gynulleidfa ehangach. Y gwahaniaeth mwyaf oedd diffyg ystafelloedd llai i Swyddogion a Gorseddogion gael newid mewn preifatrwydd. Ar ôl seremonïau dydd Llun, er mwyn cael digon o wisgoedd yn y meintiau cywir ar gyfer Urddo bore Gwener, fe olchwyd 88 o wisgoedd. Daeth Brian o Olchdy'r Ferry i'w casglu bore Mawrth a'u dychwelyd bore Iau.



Roedd hi'n wyntog iawn pnawn Gwener a'r penwisgoedd yn chwythu i bob cyfeiriad. Roeddwn yn poeni y byddent i gyd yn nŵr y Bae ond – hyd y gwn i – ni ddaeth yr un i ffwrdd!

Rhaid imi ganmol Erin oedd yn gofalu am y trefniadau lleol yng Nghaerdydd. Rwyf wedi canmol eraill am eu gwaith arbennig ond roedd Erin yn eithriadol. Trefn – 'sgynach chi ddim syniad! Unwaith roedd hi wedi deall beth oedd ei angen fe weithiodd bob dydd er mwyn gwneud yn siŵr fod pob gwisg yn ei lle. Er iddi gyfarwyddo'r rhai oedd yn ei helpu, roedd yn mynd yn ôl ac yn cywiro ac ail-wneud nes fod popeth yn gywir hollol. Oriau o waith! Hyn sy'n gwneud y ffaith fod Gorseddogion sy'n archebu gwisgoedd ond ddim yn dod i'r seremonïau wedyn mor rhwystredig i'r tîm, wedi'r holl baratoi manwl.

Peth arall sy'n digwydd yw bod rhai Gorseddogion yn meddwl dod i seremoni – ddwedwn ni pnawn Gwener – ond wrth archebu tocyn heb ddeall fod y seremoni yn llawn ac yn archebu tocyn bore. Rheini wedyn yn dod i seremoni'r pnawn hefo tocyn y bore gan ddisgwyl bod gwisg – a sedd – iddynt eto yn y pnawn. Mae hyn yn creu anhawster mawr i'r disteiniaid gan mai dim ond enwau'r rhai a archebodd yn iawn ar gyfer y pnawn sydd ar restr y pnawn. Er hynny mae'r Gorseddogion yn mynnu mai nhw sy'n gywir ac yn mynnu cael gwisg. Rydym yn gwneud ein gorau i ddatrys pob sefyllfa, yn naturiol, ond mae'n rhoi pwysau ychwanegol ar bawb ac ar system a ddylai fod yn rhwydd.

Pnawn Mercher fe rwygodd lledr y gwregys sy'n cynnal y Faner wrth ei chludo ond yn ffodus ar y ffordd yn ôl y ddigwyddodd hyn. Llwyddodd tîm Tony Llanybydder i'w ymgeleddu ar gyfer dydd Gwener. Bydd angen sylw pellach i'r lledr a hefyd i wregys y Cleddyf sydd wedi dechrau rhwygo.

O safbwynt gwisgoedd, bu rhaid addasu rywfaint ar wisg yr Archdderwydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer Myrddin, a hefyd gwneud gwisg a phenwisg newydd i Geraint Llifon gan y bydd gennym chwe Chyn-Archdderwydd erbyn Eisteddfod Sir Conwy. Yn ogystal, mae angen mwy o wisgoedd glas. Mae'r defnydd presennol wedi gorffen ac er ceisio'n ddyfal gael mwy o'r un lliw yn anffodus mae'r defnydd rwyf wedi gorfod ei gael ychydig yn dywyllach. Mae cael dilyniant lliw wedi mynd yn fater anodd iawn.

Wedi inni gael Eisteddfod 'wahanol' yng Nghaerdydd yn 2018, rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gael eich cwmni yn Eisteddfod Sir Conwy yn Llanrwst – sydd hyd yn oed yn nes at fy nghartref na Chonwy!

*Ela Cerrigellgwm*

*Arolygydd y Gwisgoedd*

## ADRODDIAD SWYDDOG Y CYSYLLTIADAU CELTAIDD 2019

Fel arfer cawsom gwmni cynrychiolwyr o'r gwyliau Celtaidd eraill yn Eisteddfod Caerdydd 2018, a phob un wedi mwynhau'r 'Eisteddfod wahanol'. Cynrychiolwyr yr Orsedd yng nwyliau'r Celtaidd yn 2019 yw:

<b>CERNYW:</b>	Y Prifardd Hywel Cynog a'r Priflenor Eurig
<b>IWERDDON:</b>	Yr Archdderwydd Myrddin ap Dafydd
<b>LLYDAW:</b>	Y Prifardd Rhys Iorwerth
<b>YNYS MANAW:</b>	Y Priflenor Annes
<b>YR ALBAN:</b>	Hywel
<b>Y WLADFA:</b>	Dim trefniadau

Ceir adroddiadau gan y rhai a fu'n ymweliad â'r gwyliau Celtaidd ar ein rhan yn ystod 2018 isod.

*Hywel*

*Swyddog y Cysylltiadau Celtaidd*

### Ymweliad â'r *Mod*, Dunoon, Hydref 2018

Mae cynrychioli'r Orsedd yn un o wyliau'r gwledydd Celtaidd bob amser yn bleser. Fodd bynnag, roedd deall fod y gwahoddiad am fynd â mi i Dunoon y tro hwn yn cynyddu'r apêl, gan y byddwn unwaith eto'n cael troedio ardal a fu'n gartref i mi am dymor go helaeth. Pan oeddwn yn beiriannydd ifanc, treuliais beth amser yn goruchwyllo adran o waith adeiladu pwerdy Inverkip, safle oedd yn edrych dros afon Clyde ar dref fechan Dunoon. Byddai'n braf cael casglu atgofion wrth droedio'r hen lwybrau. Y bwriad oedd ymweld ag Inverkip cyn croesi'r afon ar y fferi o Gourrock, ond siom enfawr – wrth wneud, cefais f'atgoffa fy mod i'n heneiddio, gan mae tir glas oedd safle'r pwerdy bellach; fe'i dymchwelwyd am nad oedd yn effeithiol mwyach!

Dyna oedd unig siom y penwythnos, oherwydd er gwaethaf storm Callum a'i wynt a glaw, roedd y croeso'n hynod o gynnes a chyfeillgar. Rhannu llety cysurus gyda swyddogion a beirniaid y *Mod*, a chael trafodaethau diddorol tros frecwast a phryd nos, gan ddysgu llawer a chael cyfle i gymharu'r gwahaniaethau rhwng ein dwy wyl.

Gan na allwn aros ond am y penwythnos cyntaf, dim ond cystadlaethau ffidil ac acordion oedd yn rhedeg, ond roedd rheini'n cynnwys ystod eang o oedran, a hyfryd oedd gweld brwdfrydedd yr ifanc a thalent amlwg y rhai flewyn yn hŷn. Un elfen annisgwyl oedd deall fod fflwt, acordion a drymiau'n dderbyniol mewn cystadleuaeth parti ffidil!



Yn naturiol doedd dim 'pafiliwn' fel y Genedlaethol, ac felly cynhelid popeth unai mewn festri capel, ysgol neu Neuadd y Dref. Gwahaniaeth mawr arall rhwng y ddwy wyl yw'r ffaith nad oes rhagbrofion, ac felly roedd **pawb** yn cael bod ar lwyfan y Brifwyl er bod ystod eang o safon. Roedd cystadlaethau Shinty a Phêl-droed ymlaen ar y Sadwrn hefyd, ond rhaid cyfaddef na wnaed ymdrech i fynd i wyllo gan fod Callum ar ei gryfaf ar y pryd!

Daeth y cyfan i ben i mi gyda Rali'r Ffidlwyr – noson gofiadwy yn cynnwys cerddoriaeth draddodiadol yn ogystal ag agwedd fwy modern. Felly Arwyddfardd wedi llwyr fwynhau a deithiodd adref ar y Sul, er ei fod yn flinedig, a hynny mae'n siŵr – yng ngeiriau Bryn Fôn – am iddo sylweddoli ei fod o'n hen!

*Dyfrig ab Ifor*

## Ymweld ag *An tOireachtas*, Hydref 2018

Dyma gychwyn i Gilarne yn yr Ynys Werdd gogyfer â'r Oireachtas o ddiwedd mis Hydref i mewn i ddyddiau cyntaf Tachwedd 2018. Awyren o faes awyr John Lennon yn Lerpwl a hedfan i Corc ac yna llogi car ac ymlaen i westy'r *Brehan* yng Nghilarne. Aros yno mewn gwesty arbennig lle roedd yr eisteddfod yn rhannol gael ei chynnal (roedd y rhan arall yng ngwesty cyfagos y *Gleneagle*).

Mawr oedd y croeso a roddwyd i ni, ac roedd f'ymweliad â'r eisteddfod ei hun yn brofiad gwahanol a dweud y lleiaf. Roedd y cystadlaethau i gyd yn yr iaith Wyddeleg ac felly hefyd y trefniadau. Roedd hynny'n amheuthun i mi ac yn f'atgoffa o'm plentyndod uniaith. Er na wyddwn air o'r Wyddeleg, yr hyn oedd yn fy syfrdanu oedd yr ymdeimlad dwfn o allu deall rhai geiriau neu deimlo ar brydiau mai yn y Gymraeg yr oeddent yn siarad. Roedd tôn y llais a rhythm y brawddegau'n tynnu rhywun i wrando – a pha ryfedd! Mae'r rhwymyn Celtaidd, a'r berthnas rhwng y Gymraeg a'r Wyddeleg, yn dynnach nag y mae rhywun yn ei feddwl. Roedd safon y cystadlu'n uchel a nifer dda wrthi o'r oedran cynnar i'r oedolion. Siomiant oedd ffarwelio – ond nid cyn addo nad hwnnw fyddai'r ymweliad olaf i mi â'r Oireachtas a Chilarne.

*Geraint Llifton*

## Ymweld â *Gorsedh Kernow*, Medi 2018

Roedd yn daith hir ond pleserus o'r Wyddgrug i Newquay yng Nghernyw, gan alw ar y ffordd yn Clifton i weld a cherdded pont enwog Brunel. Wedi cyrraedd gwesty'r *Bristol* ar lan y môr, derbyn croeso cynnes gan y ddau oedd yn edrych ar fy ôl, sef Rael (Cymraes o Fydrilyn) a'i gŵr Peter. Wedi te roedd cyfle i gyfarfod ag eraill, gan gynnwys Veronique a'i gŵr Jean Claude o Orsedd Llydaw. Roedd adloniant y noson yn cynnwys arddangosfa o ddawnsfeydd Cernywaidd – a chyfle i ymuno!

Fore trannoeth, aethom ar y bws i ganol Newquay er mwyn cymryd rhan yn yr orymdaith ddinesig i lecyn uwchben y môr lle rhoddwyd croeso i'r Orsedd gan Faer a chynghorwyr y dref, ac yna cerdded linc-di-lonc yn ôl i'r gwesty ar hyd ffordd lle'r arferai tramiau redeg. Newid a chyfle i ymlacio gan fynd i weld lleoliad Cylch yr Orsedd gerllaw, tra'n cadw golwg ar y tywydd oedd yn chwythu a glawio wrth iddo ostegu. Gwisgo am yr ail dro wedyn, ac wedi ein rhoi mewn trefn, gorymdeithio am y Cylch, gan sylwi bod ychydig dros 200 yn eu gwisgoedd a thyrfa o rai cannoedd o gwmpas y Cylch.

Yn wahanol i ni yng Nghymru, mae'r llwyfan ar un ochr y Cylch ond fel arall mae llawer o'r elfennau'n debyg iawn – Gweddî'r Orsedd, galw am heddwch gyda'r cleddyf mawr, dawns flodau, cyfarch, anerchiad gan y Bardd Mawr a chyfle i gynrychiolwyr Cymru a Llydaw i annerch. Braint oedd cael gwneud hynny yn Gymraeg gan ategu'r alwad am fwy o gyfle i'r Gernyweg gan y BBC, gan anelu am yr hyn sy'n digwydd yma yng Nghymru – a sylweddoli wedyn fod llawer iawn o'r rhai oedd yno'n deall yr hyn a ddywedais. Yna aed ati i urddo aelodau newydd – rhyw 30 i gyd, o bell ac agos (o Gernyw ac o wledydd fel Canada, Awstralia a Japan) a phawb oherwydd iddynt fynd ati i ddysgu'r Gernyweg. Y trueni (a'r eironi) mawr oedd nad oeddwn yn eu clywed yn siarad â'i gilydd yn y Gernyweg.



Urddwyd Melennek, sef Elizabeth Carne, yn Fardd Mawr am y tair blynedd nesaf, i olynu Telynyor an Weryn (Merv Davey). I ddiweddu canwyd geiriau Cernyweg oedd yn moli Cernyw ar alaw 'Hen Wlad fy Nhadau'.

Ar ôl y seremoni cafwyd te Gorseddol arbennig gyda phasteiod Cernyw, a chyfle i wrando ar yr Aelod Seneddol yn annerch yn ysbrydoledig. Gyda'r hwyr, trefnwyd cyngerdd amrywiol gan dalentau lleol oedd yn dda iawn. Ar y pwn Sul, i gloi'r gweithgareddau, profiad gwbl wahanol oedd mynd i Eglwys Sant Mihangel yn y dref lle roedd y gwasanaeth yn gyfan gwbl Gernyweg, ar wahân i'r bregeth oedd yn Saesneg.

*Hywel*

## Ymweld â Gorsedd Digor, 15 Gorffennaf 2018

Dyma oedd yr ail dro i mi ymweld â Gorsedd Digor. Y tro cyntaf, yn 2011, cynhaliwyd y seremoni ar ganol cae oedd yn agored i'r tywydd (enbyd o wael y Sul hwnnw!) yn ardal Arzano; bellach cynhelir Gorsedd Digor mewn llwyn derw cysgodol allan yn y wlad ger Brasparts, a'r tro hwn ar ddiwrnod crasboeth – yn wyneb haul, llygad goleuni go iawn – gorfod sefyll ar y Maen Llog yn y gwres llethol am dros awr!



Mae seremoni Gorsedd Llydaw yn ddigon tebyg i'n seremoni ni yn ei hanfod, ond mae sawl gwahaniaeth hefyd. Y mwyaf trawiadol o'r rheini, ysywaeth, yw'r niferoedd bach iawn sy'n dod i wyllo ac sy'n cael eu derbyn i'r Orsedd acw, o'u cymharu â'r lluoedd mawr sy'n dod i wyllo'n gweithgareddau ni yng Nghymru a'r diddordeb mawr sydd mewn ymaelodi trwy anrhydedd neu radd neu arholiad. Wedi dweud hynny, mae brwdfrydedd Derwydd Mawr Llydaw a'i gydswyddogion yn amlwg, a'u croeso'n ddi-feth o hael, a

braf oedd ailgyfarfod â chyfeillion o Lydaw ac o Gernyw a threulio ychydig amser yn eu cwmni unwaith eto . Ac mewn cyfnod a nodweddir gan densiynau rhwng cenhedloedd a'i gilydd, braint yw cael cydnabod a dyfnhau'r berthynas hynafol ac ystyrlon sy rhyngom ni a'n cefndryd Celtaidd ar gyfandir Ewrop.

*Christine*

## ADRODDIAD TREFNYDD YR ARHOLIADAU 2019

- Cofrestrodd chwe ymgeisydd (o wahanol ardaloedd ledled Cymru) ar gyfer yr arholiadau eleni, gan gwmpasu'r meysydd astudiaeth a ganlyn:
  - Arholiad Cyntaf Cyfansawdd: Barddoniaeth, Iaith, Rhyddiaith (tri ymgeisydd)
  - Arholiad Iaith 2 (pedwar ymgeisydd)
  - Arholiad Cerddoriaeth 1 (un ymgeisydd)
  - Arholiad Cerddoriaeth 2 (un ymgeisydd)
- Un ganolfan ganolog a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal yr arholiadau eleni, sef Eglwys Dewi Sant, Aberystwyth, gyda Nan Lloyd Williams (Nan Llwyd) – yn ôl ei charedigrwydd arferol – yn gyfrifol am drefnu'r lleoliad a goruchwylio'r ymgeiswyr ar y diwrnod.
- Diolch i'r arholwyr perthnasol am fynd ati i osod a marcio'r papurau arholiad eleni (y Cyn-Archdderwydd John Gwilym, Y Prifardd Robot, Gari Niclas, Cerddores Dwyfor, ac Ifor ap Gwilym).
- Mynegaf fy ngwerthfawrogiad mwyaf diffuant o gydweithrediad a chymorth parod fy nghyd-swyddogion yng Ngorsedd, ynghyd â swyddogion yr Eisteddfod, yn y gwaith o weinyddu a chyflawni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r Orsedd trwy arholiad. Maent yn hwyluso fy ngwaith yn fawr iawn.
- Yn yr un modd, diolchaf yn arbennig i'r Arwyddfardd a'r Cofiadur am eu cymorth arbennig yn sicrhau fy mod yn derbyn yr holl fanylion perthnasol am bawb a urddir yn aelodau o'r Orsedd (trwy arholiad, ar sail eu gradd, ac er anrhydedd) fel bod modd paratoi'r tystysgrifau mewn da bryd ar gyfer y seremonïau urddo boreol yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Diolch hefyd i Hywel a'r disteiniadaid am eu cymorth parod yn hwyluso'r broses o gyflwyno'r tystysgrifau mewn modd trefnus ac urddasol yn y seremonïau hyn.
- Mae'n hynod galonogol fod yna unigolion sy'n parhau i weld gwerth yn yr amrywiol feysydd astudiaeth – gan fod yn barod i roi o'u hamser i astudio a sefyll yr arholiadau – er mwyn cael ymaelodi yn yr Orsedd. Hir y parhao hynny – ac apelïaf eto eleni ar aelodau'r Orsedd yn gyffredinol i hyrwyddo'r arholiadau trwy annog ffrindiau, cydnabod ac aelodau'r teulu i ystyried y llwybr teilwng hwn i mewn i'r Orsedd.

*Gwyn o Arfon, Trefnydd yr Arholiadau*

## CYFARFOD CYMDEITHASOL YR ORSEDD 2018\*

Yn flynyddol, er 1980, daw pecyn trwy'r post i'm cartref o'r Bathdy Brenhinol, sef set o ddarnau arian y flwyddyn arbennig honno, yr hyn mae'r Bathdy'n ei alw'n 'Set Ddisglair heb ei Chylchredeg'. Bob blwyddyn byddaf yn edrych ar y darnau ac yn addo i mi fy hun ymweliad â'r Bathdy er mwyn cael gweld sut y gwneir arian. Diolch i'r Orsedd, ac yn fwyaf arbennig i'r Arwyddfardd am drefnu, daeth cyfle o'r diwedd ...



Cyfarfod gyntaf yn y *Miskin Arms* ym Meisgyn. Ei berchennog yw'r cogydd Dudley Newbery, sy'n adnabyddus ar draws Cymru, a thros y ffin, am sawl rhaglen goginio ac am ei waith clodwiw yn hyrwyddo bwyd a chynnyrch Cymreig. Cawsom ginio gwir flasus yn ei fwyty. Gwledd yn wir!

Troi wedyn am y Bathdy a chael ein harwain gan dywysyddion Cymraeg o amgylch y ffatri ac yna i'r arddangosfa. I mi fel gwyddonydd, amheuthun oedd cael clywed am y modd y try cymysgedd o fetelau amrwd yn ddarn disglair o arian yn fy mhoced, a'r cyfoeth o dermau Cymraeg sy'n bodoli i ddisgrifio gwahanol brosesau'r bathu. Clywsom am hanes y Bathdy, yn mynd 'nôl dros fil o flynyddoedd. Yn wreiddiol, cyfres o siopau o fathwyr arian yn Llundain oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r darnau arian, ond erbyn 1279 canolwyd popeth yn Nhŵr Llundain. Yno y bu'r Bathdy hyd 1810 pan symudwyd y cyfan i bedair erw o dir yn Little Tower Hill gerllaw, ac yno y bu am ryw 150 mlynedd wedyn hyd nes symud i'r safle presennol o bron 30 erw yn Llantrisant, yn 1968. Yn ôl yr hanes, i James Callaghan, Canghellor y Trysorlys ar y pryd, y mae'r diolch mai i Gymru y daeth y Bathdy.

Mae union gyfansoddiad pob darn arian yn gyfrinach o'r radd uchaf – rhaid osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddyngwared a chreu arian ffug. Cynhyrchir darnau arian ar gyfradd o 750 darn y funud yn y ffatri, a chawsom ni Orseddogion fathu ein darn £2 ein hunain fel cofrodd o'n hymweliad. Syndod i rai oedd dysgu bod y Bathdy yn cynhyrchu arian hefyd i drigain a mwy o wledydd i gyd, yn ogystal â medalau a seliau o bob math.



Ar ôl cael ein tywys o amgylch y ffatri, cawsom gyfle i arsylwi'n fwy hamddenol yn yr arddangosfa. Un gwendid ynddi yw nad oes nemor dim sylw'n cael ei roi i fathu arian yn y cyfnod cyn dechreuadau'r Bathdy, ond gwyddom fod ein cyndeidiau Celtaidd yn bathu arian ym Mhrydain o leiaf ganrif cyn geni Crist. Serch hynny, mae'r arddangosfa'n hynod ddiddorol, ac ynddi drysorau dirfeddi: o geiniog Alfred Fawr yn dyddio o tua 880 O.C. i sofran aur Harri'r VIII y dywedir ei fod yn un o'r darnau arian enwocaf a welodd y byd erioed; ac o fedalau Waterloo 1815, a phob un o'r 39,000 medal a fathwyd yn cario enw'r milwr penodol a'i derbyniodd (y tro cyntaf erioed i hyn ddigwydd), i'r 'arian na fodolodd', sef yr arian a baratowyd ar gyfer teyrnasiad Edward VIII ond nas cylchredwyd oherwydd i'r brenin ymddiorseddu cyn ei goroni.

Sicrhaodd y gymysgedd o gymdeithas glòs fy nghyd-Orseddogion, y cinio blasus a'r wefr o ddod i ddeall yr hyn sydd y tu ôl i'r darnau arian yn ein pocedi brynhawn tra arbennig. Mawr yw ein diolch am yr holl drefnu. Gydag ymddiheuriadau am aralleirio T. Gwynn Jones yn ei gerdd 'Penmon': heb os nac oni bai, 'Rhyw Sadwrn uwch na Sadyrnau oedd'.

Hefin Jones (*Hefin Pencader*)

\*Crynodeb yw hwn o adroddiad llawn sydd i'w weld ar: <http://www.gorsedd.cymru/newyddion>